| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Y Cyngor Llawn** |
| DYDDIAD: | **1 Mawrth 2018** |
| PWNC: | **Cyllideb 2018/19 a Strategaeth Ariannol 2018/19 – 2020/21** |
| AELOD CABINET: | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet dros Gyllid** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| PWRPAS: | **Gosod Cyllideb y Cyngor a phennu lefel Treth Cyngor 2018/19** |

Argymhellion y Cabinet i'r Cyngor llawn yw y dylid:

1. sefydlu cyllideb o £242,862,930 ar gyfer 2018/19, i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £175,127,330 a £67,735,600 o incwm o'r Dreth Cyngor, gyda chynnydd o 4.8%.

2. sefydlu rhaglen gyfalaf o £8.389m yn 2018/19, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yng nghymal 9.4 o'r adroddiad.

Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor **4.8%** yn gynnydd wythnosol o £1.15, neu cynnydd o £59.57 yn y Dreth Cyngor Band D blynyddol, o £1,240.96 i **£1,300.53.**

---

## CRYNODEB

## CYLLIDEB 2018/19

1. Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19, ac yn unol â'r drefn arferol, cyflwynir y gyllideb flynyddol (Rhan A o'r adroddiad dilynol) o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig (Rhan B), gan sicrhau fod y gyllideb yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig.

2. Eleni, mae'r Cyngor yn elwa o'r cynllunio tymor canolig mewn blynyddoedd blaenorol, gan ein bod yn medru mantoli'r gyllideb heb orfod cymryd unrhyw benderfyniadau newydd sy'n torri gwasanaethau i'r dinesydd, er fod raid codi'r Dreth 4.8%.

3. Argymhellir codi'r Dreth 4.8% yn 2018/19 er mwyn amddiffyn gwasanaethau i bobl Gwynedd, gan fydd raid cynllunio i ddarganfod hyd at £20m o arbedion erbyn 2018/19 - 2020/21.

4. Wedi ymgynghori mewn cyfres o weithdai yn Ionawr/Chwefror, a gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (8 Chwefror), mae'r Cabinet wedi ystyried y strategaeth ariannol 2018/19 – 2020/21, ac argymell cyllideb briodol i'r Cyngor ar gyfer 2018/19.

## A) CYLLIDEB 2018/19

5. Gellir crynhoi'r gyllideb a gynigir ar gyfer 2018/19 fel a ganlyn –

**Arbedion i ddygymod gyda bwlch 2018/19**

| | £ |
|---|---|
| Arbedion Effeithlonrwydd Cymeradwy | 1,484,650 |
| Toriadau Cymeradwy | 368,460 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Pellach | 896,430 |
| Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | 2,749,540 |

**Sefydlu Cyllideb a lefel Treth 2018/19**

| | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2017/18 | 231,299,720 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 14,312,750 |
| Gofynion gwario 2018/19 cyn Arbedion | 245,612,470 |
| llai Incwm Grant Llywodraeth | -175,127,330 |
| llai Arbedion 2018/19 | -2,749,540 |
| Cynnyrch Treth Cyngor: codi 4.8% | 67,735,600 |

**Cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19**

| | £ |
|---|---|
| Gofynion gwario 2018/19 cyn Arbedion | 245,612,470 |
| Cyfanswm Arbedion 2018/19 | -2,749,540 |
| Cyllideb Net 2018/19 | 242,862,930 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 175,127,330 |
| Treth Cyngor | 67,735,600 |
| Cyllideb Net 2018/19 | 242,862,930 |

6. Erbyn 2018/19, bydd angen cynyddu ein gwariant i £245.6m er mwyn "sefyll yn llonydd", gan gynnwys £1.55m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (manylion o'r 'bidiau' yn Atodiad 1). Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau datblygol ar wahân i hyn, drwy Gynllun y Cyngor (eitem flaenorol ar y rhaglen). Cyflwynir yma'r ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

7. Er mwyn cyfarch y bwlch ariannol, bydd modd priodoli £2.75m o arbedion, ac wedyn rhaid cynyddu'r Dreth Cyngor 4.8%.

8. Cyn cyflawni adolygiad mwy trylwyr o'r Strategaeth Asedau, rydym wedi sefydlu rhaglen ar sail isafswm ar gyfer 2018/19, yn unol â'r hyn a nodir yng nghymal 9.4 o Rhan A, fydd yn golygu rhaglen o £8.389m yn 2018/19. Mae'r rhaglen yn parhau i fod yn gwario ar gynlluniau cyfalaf ar lefel uwch na'r adnodd yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein rhaglen gyfalaf, ond ni ystyrir fod y lefel benthyca perthnasol am or-ymestyn y Cyngor.

## B) STRATEGAETH TYMOR CANOLIG - CRYNODEB

9. Mae'r gwaith modelu (yn Rhan B o'r adroddiad manwl) yn cadarnhau bydd angen sicrhau bod ein trefniadau ni yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £20m o arbedion dros y dair blynedd 2018/19 - 2020/21. I'r perwyl hyn, argymhellir y dylid parhau gyda'r strategaeth arbedion cyfredol lle mae'r Cabinet am benderfynu ar dargedau gwahaniaethol i adrannau'r Cyngor, y penaethiaid adran yn cyflwyno arbedion posib i gwrdd â'r targedau hynny, a'r pwyllgorau craffu yn herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau i'w gweithredu'n flynyddol.

## Rhesymau dros argymell y penderfyniad

10. Mae'r strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymell cynnydd yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

## Ystyriaethau perthnasol

11. Mater i'r Cyngor yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2018/19 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Gall y Cabinet benderfynu ar y strategaeth ariannol tymor canol, ond gwneir hynny yn gynhwysol mewn ymgynghoriad gyda'r Cyngor.

**RHAN A**

# CYLLIDEB 2018/19

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2018/19, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2017/18.

1.2 Cyflwynir strategaeth ariannol tymor canolig ar gyfer y cyfnod hyd at 2020/21 yn Rhan B.

## 2 GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad i ariannu llywodraeth leol ar gyfer 2018/19, ac wedi darparu ffigyrau mynegol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Nodir manylion 2018/19 isod yn y tabl isod:

**Grant Cynnal Refeniw 2017/18 – 2018/19**

| | | **Cyfanswm Awdurdodau Cymru £** | **Cyngor Gwynedd £** |
|---|---|---|---|
| Grant y Llywodraeth 2017/18 (heb addasu) | | 4,113,620,440 | 169,014,600 |
| Grant y Llywodraeth 2017/18 (wedi addasu) | | 4,205,336,640 | 174,092,900 |
| Grant y Llywodraeth 2018/19 | | 4,214,066,930 | 175,127,330 |
| | Cynnydd £ | 8,730,290 | 1,034,430 |
| | Cynnydd % | 0.2% | 0.6% |

2.2 Fe welir o ffigyrau Llywodraeth Cymru sy'n y tabl uchod fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £1m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr 2017/18 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad) sy'n gynnydd o 0.6%, gyda chyfartaledd y cynnydd ar draws Cymru yn 0.2%.

2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla, megis y nifer disgyblion, nifer hawlwyr cymorth incwm, ayb. Mae'r cynnydd uwch mewn grant i Wynedd ac awdurdodau gwledig eraill yn bennaf oherwydd fod y costau (cyfredol) uwch o redeg gwasanaethau cymdeithasol (gofal) mewn awdurdodau gwledig bellach wedi'i ymgorffori yn y fformiwla dyrannu addasedig, a hefyd am bod ffactorau eraill wedi mynd o'n plaid ni eleni. Teg yw dweud fod swyddogion Gwynedd wedi bod yn flaenllaw yn darparu'r tystiolaeth i gyfiawnhau newid y fformiwla i adlewyrchu gwir gost gofal yng nghefn gwlad, a cynhwysir ail hanner yr haeddiant yma eleni.

2.4 Er gwybodaeth, yn ychwanegol at y £1,034,440 sy'n ffigyrau Llywodraeth Cymru, derbyniwyd cynnydd pellach cymharol fychan o £51,060 oherwydd addasiad sylfaen trethiannol.

## 3 GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2018/19

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd yn y gwariant fydd ei angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2018/19.

**Gofynion Gwario Ychwanegol**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol | | 231,299,720 |
| Chwyddiant Cyflogau Staff | 4,737,040 | |
| Incrementau net o Drosiant | 64,870 | |
| Pensiynau | 406,770 | |
| Chwyddiant Arall (cyflenwyr) | 1,783,200 | |
| Llog ar falansau | 42,750 | |
| Ardollau | 22,980 | |
| Demograffi | 690,630 | |
| Addasiadau Incwm Gwasanaethau | 35,690 | |
| Addasiadau Cyllideb Amrywiol | -2,321,160 | |
| Trosglwyddiad i'r Setliad | 5,078,090 | |
| Bidiau - Pwysau ar Wasanaethau | 1,550,520 | |
| Bidiau i'w ariannu o gynnyrch Treth Cyngor y Premiwm | 190,930 | |
| Neilltuo gweddill cynnyrch Treth Cyngor y Premiwm i Gronfa | 2,030,440 | |
| Cyfanswm net yr ychwanegiadau | | 14,312,750 |
| Cyfanswm gofynion gwario 2018/19 cyn arbedion | | 245,612,470 |

3.2 **Cyllideb Sylfaenol 2017/18**
Er mai £231m yw gwariant net 2017/18, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £388m oherwydd ein bod yn derbyn llu o grantiau penodol gwerth £95m ac yn codi bron i £62m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 **Chwyddiant Cyflogau £4.74m**
Darperir ar gyfer cynnydd tâl 2% i staff y Cyngor, yn unol â chytundeb cenedlaethol, gyda % sylweddol fwy i rai staff ar raddfeydd isaf gwerth £1.56m i gyfarch gofynion 'cyflog byw' cenedlaethol.

3.4 **Incrementau net o Drosiant £65k**
Swm 'net' sy'n adlewyrchu lefel incrementau tâl uwch na gwerth trosiant ar gyfer holl staff y Cyngor.

3.5 **Pensiynau – Cofrestru'n Awtomatig £407k**
Oherwydd perfformiad buddsoddi rhagorol Cronfa Bensiwn Gwynedd, llwyddwyd i beidio cynyddu cyfraddau cyfraniad pensiwn cyflogwr y Cyngor yn y prisiad teirblynyddol diwethaf.
Fodd bynnag, mae effaith deddfwriaeth cofrestru'n awtomatig yn golygu fod mwy o weithwyr yn ymuno â'r cynllun pensiwn, gyda cyfraniadau'r cyflogwr ar gyflogau'r rheiny yn gost ychwanegol. Y £407k yma yw effaith blwyddyn llawn y newid statudol o fis Hydref 2016.

3.6 **Chwyddiant arall £1.8m**
Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd ein cyflenwyr preifat, ynghyd â chynnydd chwyddiant sylweddol ar gyllidebau tanwydd ac ynni.

3.7 **Llog ar Falansau £43k**
Rhagamcan o ostyngiad pellach mewn llog derbyniadwy yn 2018/19, wrth i fuddsoddiadau hir-dymor ddirwyn i ben, tra mae cyfraddau llog am barhau ar y lefel isel cyfredol.

3.8 **Ardollau £23k**
Yn Rhagfyr 2017, penderfynodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru godi'r ardoll 1% ar yr awdurdodau cyfansoddol, sy'n cynyddu'r gofyn ar Cyngor Gwynedd o £62k, tra bu cynnydd £11k mewn ardoll draenio arbennig i 'Cyfoeth Naturiol Cymru', ond gostyngiad £50k yn ardoll Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

3.9 **Demograffi £691k**
Cyfanswm sy'n adlewyrchu +£232k oherwydd cynnydd mewn nifer disgyblion yn yr Ysgolion, a +£458k oherwydd cynnydd mewn pobl sy'n derbyn gofal gan yr Adran Oedolion.
Mae'r ffigwr net o +£232k i ysgolion yn cuddiad sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£405k, cynradd -£159k, dilynol -£79k, ac arbennig +£66k. Fodd bynnag, mae'r effaith demograffi ar ysgolion erbyn 2018/19 wedi'i gymhlethu oherwydd gohiriwyd -£457k o effaith demograffi ar rai ysgolion uwchradd yn 2017/18. Wedi cynnwys hwnnw, mae sefyllfa net ysgolion yn -£225k.
Yn 2017/18, derbyniwyd grant penodol ar gyfer cwrdd â'r demograffi gofal oedolion. Disgwylir grant cyffelyb erbyn 2018/19, felly mae'r swm demograffi Oedolion wedi'i neilltuo mewn cyllideb corfforaethol hyd nes cawn gadarnhad o'r grant.

3.10 **Addasu Cyllidebau Incwm Gwasanaethau £36k**
Swm 'net' wedi addasu targed incwm gwasanaethau, yn cynnwys -£100k Oedolion (Llywodraeth Cymru wedi codi cap ffioedd di-breswyl wythnosol), -£65k Amgylchedd (sy'n adlewyrchu'n bennaf sefyllfa ffafriol ffioedd parcio, cau ffyrdd, ayb), -£15k Cefnogaeth Gorfforaethol (incwm ffafriol Cyfieithu a Iechyd Galwedigaethol), -£10k Cyfreithiol (sefyllfa ffafriol hawlio costau), a +£226k Priffyrdd (colled cyfle incwm yn sgil trosglwyddo staff i'r Asiantaeth Cefnffyrdd).

3.11 **Addasiadau Cyllideb Amrywiol -£2.3m**
Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau mewn darpariaethau ar draws y Cyngor, ond yn bennaf gwrthdroi bidiau un-tro 2017/18, lleihau cyllideb corfforaethol ar gyfer Gostyngiadau Treth Cyngor, a dileu cyllideb wrth gefn.

3.12 **Trosglwyddiadau i'r setliad £5.1m**

Mae sawl cyfrifoldeb yn trosglwyddo i mewn i setliad grant Llywodraeth Cymru i'r Cyngor erbyn 2018/19. Bydd y cyllidebau sy'n trosglwyddo i gyllideb y Cyngor, ynghyd â'r cyfrifoldebau perthnasol, yn cael eu priodoli i'r adrannau perthnasol.

Felly, bydd cynnydd £2.9m yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adlewyrchu trosglwyddiad £2,062,930 y Grant Byw'n Annibynnol Cymru, ynghyd â £724,480 y Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol, a £114,390 y Grant Gofal Seibiant i Ofalwyr.

Hefyd, bydd cynnydd £218,500 yng nghyllideb yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i adlewyrchu trosglwyddiad y Grant Plant sy'n Derbyn Gofal.

Yn ogystal, bydd cynnydd £1,958,010 yng nghyllideb yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i adlewyrchu trosglwyddiad elfen gwastraff y Grant Refeniw Sengl.

Mae cyfrifoldebau eraill yn trosglwyddo i'r Cyngor erbyn 2018/19 (gan gynnwys £212,570 i Atal Digartrefedd), ond nid yw setliad grant Llywodraeth Cymru yn adnabod rheiny fel "trosglwyddiadau i'r setliad". Felly, mae cyllideb y Cyngor yn trin rheiny fel 'pwysau ar wasanaethau', hynny yw 'bidiau' yn y paragraff dilynol a'r atodiad perthnasol.

3.13 **Pwysau ar Wasanaethau £1.55m**

'Bidiau' anorfod – gweler **Atodiad 1** am fanylion pob 'bid' unigol.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £1.55m gan adrannau'r Cyngor am adnoddau parhaol ychwanegol i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo gwerth £1.51m o bidiau un-tro.

Cofier fod prif flaenoriaethau'r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a'u comisiynu ar wahân i hyn, drwy Gynllun y Cyngor. Beth gyflwynir drwy'r "bidiau" yma yw ymrwymiadau anorfod mae'r gwasanaethau'n wynebu rŵan.

Mae pob Adran yn cael yr hawl i nodi os oes yna unrhyw wariant y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyflawni os yw am sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid ar gyfer datblygiadau newydd y mae'r pennawd, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu eu hunain wrth i ni adolygu patrymau gwariant eleni. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, wedyn ninnau'n gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau yma wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Gyllid cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

3.14 **Premiwm Treth Cyngor £2.2m**
Argymhellir cymeradwyo dau "bid" gwerth cyfanswm £190,930 i'w ariannu o gynnyrch Treth Cyngor y Premiwm.

Argymhellir neilltuo gweddill cynnyrch Treth Cyngor y Premiwm yn 2018/19 i gronfa benodol i'w ddefnyddio at flaenoriaethau'r Cyngor.

Rhoddir sylw penodol i hyn yn rhan 4 isod.

## 4 CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

4.1 Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19 i godi premiwm o 50% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy. Felly, bydd y Cyngor yn derbyn incwm ychwanegol yn 2018/19 trwy godi Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag.

4.2 Fel rhan o benderfyniad y Cyngor ar 8 Rhagfyr 2016, nodwyd mai bwriad y Cyngor fydd defnyddio 'canran' o'r arian a dderbynnir o godi premiwm i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau. Er hynny, nid oes cyfyngiad ar ddewis y Cyngor o ran defnydd o'r incwm ychwanegol, ac mae'r 'canran' yn amhenodol, yn unol â f'argymhelliad i gadw'r hyblygrwydd hynny rhag ofn byddai angen gwneud dewisiadau cyllidebol anodd.

4.3 Wedi ymarferiadau manwl ym Mehefin a Medi 2017 i gysylltu â pherchnogion tai ac adnabod ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor, derbyniwyd ymatebion gan fwyafrif y perchnogion a gwnaethpwyd rhagdybiaethau teg ar gyfer y gweddill. Ymhellach i daflen penderfyniad yr Aelod Cabinet Cyllid yn dod i rym ar 21 Tachwedd 2017, cyflwynwyd 'Sylfaen Trethiannol' 2018/19 i swyddfa Llywodraeth Cymru.

4.4 Ar sail y sylfaen trethiannol honno, amcangyfrif bydd Premiwm o 50% gwerth oddeutu 1,721 yn nhermau eiddo 'Band D', ac o ganlyniad fe ddylai'r Premiwm gynhyrchu oddeutu £2.2 miliwn o incwm ychwanegol. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2018/19.

4.5 Mae dau 'alwad cyntaf' yn erbyn yr arian a dderbynnir o'r Premiwm, sef dau arolygydd eiddo yn y Gwasanaeth Trethi a swyddog Fforddiadwyedd yn y Gwasanaeth Tai.

4.6 Sawl tro wrth gyflwyno ac ymateb ar y mater, mae'r Pennaeth Cyllid wedi nodi bydd raid ariannu swyddi 'Arolygwyr Eiddo' yn y Gwasanaeth Trethi, er mwyn gwneud yn siŵr fod yr incwm priodol yn cael ei gasglu. Mae cofnodion Cabinet 22 Tachwedd 2016 yn nodi *"Os am gydymffurfio, bydd angen adnoddau yn yr Adran Cyllid i wneud gwaith arolygu, ac felly rhaid edrych yn gynhwysfawr ar y mater".* Erbyn 2018/19, gofynnir am 2 swydd ychwanegol ar gyfanswm cost o £52,600.

4.7 Hefyd, mae'r Cabinet 21 Tachwedd 2017 eisoes wedi cymeradwyo gofyn y Gwasanaeth Tai am £46,110 y flwyddyn am dair blynedd (cyfanswm oddeutu £140,000) i *'Gynyddu Cyflenwad a Fforddiadwyedd',* drwy benodi swyddog ychwanegol o fewn Tîm Strategol Tai, fel bydd modd i'r Cyngor *"fanteisio yn llawn ar arian grant gellid hawlio gan y Llywodraeth i gynyddu'r nifer o dai cymdeithasol a fforddiadwy yng Ngwynedd".*

4.8 Argymhellir i'r Cyngor gefnogi'r ddau 'alwad cyntaf' yma. Golygai hynny bydd oddeutu £2m o incwm ychwanegol i'w flaenoriaethu, ar ôl ariannu'r dair blynedd Tai uchod i gyd o gynnyrch Premiwm Treth Cyngor 2018/19.

4.9 Argymhellir neilltuo'r cyfan o'r swm oddeutu £2m sy'n weddill o'r Premiwm Treth Cyngor 2018/19 mewn cronfa benodol i'w ddefnyddio ar flaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys darparu tai ar gyfer pobl ifanc.

4.10 Argymhellir aros i adnabod y gwir gynnyrch treth o'r Premiwm, a'r bygythiad o doriadau ariannol i wasanaethau erbyn 2019/20, cyn priodoli'r cynnyrch treth o'r Premiwm yn 2019/20 a blynyddoedd dilynol. Byddai'n ddoeth i aelodau gadw hyblygrwydd i'r dyfodol, rhag ofn bydd angen i'r Cyngor wneud dewisiadau cyllidebol anodd ymhen 12 mis.

## 5 YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2018/19

5.1 Wrth ddatblygu cyllideb drafft ar gyfer 2018/19, daeth yn amlwg fod yna bryder yn codi ynglŷn â'r gyllideb ysgolion. Ers cyhoeddiad setliad grant awdurdodau lleol, roedd cyfeiriad Llywodraeth Cymru at "gyllid ychwanegol" a gwarchodaeth ysgolion wedi codi disgwyliadau ariannol Penaethiaid a Llywodraethwyr ar gyfer 2018/19. Eglurwyd wrth y Fforwm Cyllid Ysgolion bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai datganiadau camarweiniol am sefyllfa ariannol ysgolion, a cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi trosglwyddo targed arbedion pellach i ysgolion Gwynedd eleni.

5.2 Bydd y gyllideb ysgolion yn wynebu'r addasiadau "demograffi" arferol sy'n deillio o newidiadau yn niferoedd disgyblion. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith lleihad niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau £225k. Nid oes unrhyw beth yn annisgwyl yn hyn - rhybuddiwyd am ostyngiad tebygol o £333k yr adeg yma'r flwyddyn ddiwethaf.

5.3 Yn erbyn hyn gwelir yn y rhan bidiau o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu bid o £319k gan yr Adran Addysg tuag at y gyllideb integreiddio, sy'n golygu y bydd 'Addysg' ar ei ennill. Yn sicr, wedi cymryd chwyddiant dros £1.4m i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion dipyn uwch yn 2018/19 na lefel 2017/18.

5.4 Fodd bynnag, mae yna nifer o broblemau wedi codi yn y maes Addysg fyddai yn golygu fod yn rhaid i'r Cyngor ychwanegu ymhellach at eu cyllideb drwy'r broses bidiau, neu i'r Adran Addysg leihau'r gyllideb ysgolion os am gael cyllideb gytbwys yn 2018/19. Byddai cyfanswm y materion yma wedi golygu trosglwyddo arbedion o £1.7m i'r gyllideb ysgolion, a barn aelodau'r Cabinet oedd fod hynny'n anymarferol. Felly, cytunwyd i argymell y datrysiadau canlynol.

5.5 Cludiant - Gwariant Uwch (£516k) - Yn yr adolygiadau o gyllideb 2017/18, nodwyd fod y tafluniad gorwariant cynyddol ar y gyllideb cludiant o fewn Addysg, a bydd angen gwneud rhywbeth amdano. O'i adael fel y mae, byddai hyn yn creu'r angen am gyllid parhaol ychwanegol o £286k yn 2018/19 (ynghyd â £230k i gwrdd â diffyg 2017/18). Argymhellir y byddwn yn defnyddio tanwariant corfforaethol i ddileu gorwariant eleni, ond mynnu fod yr Adrannau Addysg ac Amgylchedd yn ail ymweld â'u polisïau / trefniadau cludiant gyda golwg ar reoli'r gwariant o fewn y gyllideb sydd ar gael erbyn 2019/20. Er mwyn prynu amser i fedru gwneud y newid, yn y cyfamser argymhellir pontio £200k o'r £286k fyddai ei angen yn 2018/19 drwy ddarparu cyllideb unwaith ac am byth, gyda'r Adran Addysg yn cwrdd â'r £86k sy'n weddill.

5.6 Integreiddio - (£347k) – Golygai'r prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol (sy'n cyflawni arbedion) fod gwaith yn y maes yn cael ei gyflawni gan yr Uned Ganolog, yn hytrach na'r ysgolion. O ganlyniad, bydd £347k yn trosglwyddo o'r gyllideb ysgolion i'r 'canol' (Adran Addysg). Trosglwyddiad ydyw, a tra bydd y gyllideb ysgolion yn gostwng, bydd yr angen i ysgolion wario hefyd yn gostwng.

5.7 Grant Gwella Ysgolion ('EIG') (£618k amcangyfrif) - Mae yna nifer o bethau yn cael eu hariannu o'r grant, gyda chyfran sylweddol yn rhan o'r gyllideb ysgolion. Mae'r Gweinidog Addysg wedi torri'r grant penodol uchod a'i "osod yn y setliad" er mwyn gallu dweud nad oes disgwyl i'r gyllideb ysgolion leihau. Mae hi hefyd wedi creu'r argraff fod disgwyl i'r holl bethau sy'n cael eu hariannu drwy'r grant gael eu cynnal. Fedr yr un arian ddim cyflawni'r ddau beth ac mae cryn rwystredigaeth yn yr holl awdurdodau lleol ac mewn ysgolion ar draws Cymru ynglŷn â hyn. Tra'n adlewyrchu dyhead y Gweinidog i beidio gostwng y gyllideb ysgolion, yn y sefyllfa ariannol anodd eleni, ni all y Cyngor lenwi'r bwlch yn y grant a'r cynlluniau mae'n ariannu, felly bydd elfen berthnasol o'r cwtogiad grant yn bwydo drwodd i'r ysgolion.

5.8 Arbedion £4.3m – (£263k) – Yn 2014, penderfynwyd gosod targed £4.3m ar gyfer ysgolion dros 2015/16 – 2017/18, ac i gydweithio gyda'r Fforwm Cyllido Ysgolion i ddatblygu cynlluniau i wireddu'r targed. Ers hynny, caniatawyd llithriad i 2018/19, pryd disgwylir i'r cynlluniau ad-drefnu ysgolion gynhyrchu £263,000 olaf y targed £4.3m. Nid yw'r arbediad yma am fod ar gael tan 2020/21 i 2021/22, ond yn hytrach na throsglwyddo'r diffyg i'r ysgolion, argymhellir ail broffilio'r arbedion i'r blynyddoedd hynny.

5.9 Felly, yn hytrach na dioddef £1.7m o "doriad pellach", bydd ysgolion yn ysgwyddo'r elfen berthnasol o'r £618k amcangyfrif o ostyngiad grant sy'n berthnasol iddynt, ynghyd â £347k o drosglwyddiad "technegol" sy'n tynnu cyllideb ac angen i wario oddi arnynt. Deallwn, wrth gwrs, fod lleihad mewn grantiau penodol eraill, a ffactorau lleol i ysgolion unigol, ond gyda'r strategaeth yma, ar y cyfan, dim ond gorfod darganfod gostyngiadau gwariant yn gyfatebol i leihad yn grantiau'r Llywodraeth fydd disgwyl i ysgolion Gwynedd wneud erbyn 2018/19.

## 6 BWLCH ARIANNU 2018/19, ARBEDION A TRETH

6.1 Fe welir o Ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2018/19 yn £245.6m. Wedi diystyru trosglwyddiadau mewn i'r setliad o £5.1m, a'r Premiwm £2.2m, mae cynnydd anorfod o £7m, sy'n 3% a byddwn yn derbyn cynnydd grant o £1m sy'n 0.6% oddi wrth Lywodraeth Cymru. Golygai hynny fwlch ariannu o £5,928k.

6.2 Ers ein rhagdybiaethau am 2018/19 yn Chwefror 2017, mae ein ffigyrau wedi'u haddasu am chwyddiant tâl sylweddol uwch na'r disgwyl, sydd i raddau wedi'i wrthbwyso gan setliad ychydig mwy ffafriol na ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru. Felly, mae'r bwlch ariannu dipyn uwch na ddisgwyliwyd.

6.3 Er mwyn dygymod gyda'r bwlch o £5,928k gellid cynhaeafu'r £1,485k o arbedion effeithlonrwydd a'r £369k o doriadau sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2018/19. Hefyd, wedi adolygu'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd arfaethedig, rwy'n argyhoeddedig gellid amcangyfrif yn ddarbodus y byddwn yn cynhaeafu gwerth £896k o arbedion pellach yn 2018/19. Felly, mae cyfanswm o £2,750k o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwlch £5,928k.

6.4 Golygai hynny fod bwlch gweddilliol o £3,178k, ac argymhellir cyfarch y bwlch hwnnw drwy godi lefel y Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 4.8% er mwyn cynhyrchu £3,178k o incwm ychwanegol.

**Cyfrifiad Arbedion a Treth 2018/19**

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Gofynion Gwario Ychwanegol (wedi addasu am Drosglwyddiadau i'r Setliad a'r Premiwm Treth Cyngor) | | 7,013 |
| **Llai -** Cynnydd Grant | | 1,085 |
| Bwlch Ariannu 2018/19 | | 5,928 |
| **Llai Arbedion** - | | |
| - Arbedion Effeithlonrwydd wedi'u cymeradwyo | 1,485 | |
| - Toriadau wedi'u cymeradwyo | 369 | |
| - Arbedion Pellach i'w cymeradwyo | 896 | 2,750 |
| **Bwlch gweddilliol i'w gwrdd o gynnydd Treth Cyngor 4.8%** | | 3,178 |

## 7 TRETH CYNGOR

7.1 Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor wneud, yn sgil yr ystyriaethau uchod, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2018/19. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.

7.2 Yn y tybiaethau gwreiddiol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Erbyn 2016/17, penderfynwyd codi'r dreth 3.97%, er mwyn osgoi gweithredu rhai toriadau. Erbyn 2017/18, penderfynwyd flwyddyn yn ôl, gan fod sawl mater wedi mynd o'n plaid, i fantoli cyllideb 2017/18 gyda chynnydd 2.8% yn lefel y dreth.

7.3 Eleni, argymhellir codi'r dreth 4.8%, fydd yn cynhyrchu £67.74m o dreth (yn cynnwys £2.22m o gynnyrch Premiwm a £3.18m o incwm ychwanegol tuag at y bwlch). Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £59.57 i eiddo mewn Band D, neu £1.15 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y cynghorau cymuned a'r Awdurdod Heddlu yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.

7.4 Mae dros 16.3% o dai yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60.5% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £62,500. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £312,300 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £625,000.

7.5 Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2013/14:

| Blwyddyn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| 2017/18 | 2.80% | 3.10% |
| 2016/17 | 4.00% | 3.70% |
| 2015/16 | 4.50% | 4.30% |
| 2014/15 | 3.90% | 4.20% |
| 2013/14 | 3.50% | 3.10% |
| Cyfanswm 2013-18 | 18.70% | 18.40% |
| Cyfartaledd 2013-18 | 3.74% | 3.68% |

Yn 2017/18 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,240.96, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,162.

7.6 Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2018/19, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennyf yw bydd y cyfartaledd ar draws Cymru tua 4.7%. Wedi codi 0.3% yn is na chyfartaledd Cymru llynedd erbyn 2017/18, eleni erbyn 2018/19 mae'n rhesymol i godi ychydig uwch na'r cyfartaledd, a chadw at y polisi hir-dymor.

7.7 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, **fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth, argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 4.8%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £1.15, neu £59.57 yn flynyddol, gyda threth 'Band D' o £1,300.53 am 2018/19.**

7.8 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cyfansymiau perthnasol wrth i'r Cyngor osod cyllideb a treth ar gyfer 2018/19 ar sail yr argymhellion uchod.

## Arbedion i ddygymod gyda bwlch 2018/19

| | £ |
|---|---|
| Arbedion Effeithlonrwydd Cymeradwy | 1,484,650 |
| Toriadau Cymeradwy | 368,460 |
| Arbedion Effeithlonrwydd Pellach | 896,430 |
| Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch | 2,749,540 |

## Sefydlu Cyllideb a lefel Treth 2018/19

| | £ |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol 2017/18 | 231,299,720 |
| Gofynion Gwario Ychwanegol | 14,312,750 |
| Gofynion gwario 2018/19 cyn Arbedion | 245,612,470 |
| llai Incwm Grant Llywodraeth | -175,127,330 |
| llai Arbedion 2018/19 | -2,749,540 |
| Cynnyrch Treth Cyngor: codi 4.8% | 67,735,600 |

## Cyllideb gytbwys ar gyfer 2018/19

| | £ |
|---|---|
| Gofynion gwario 2018/19 cyn Arbedion | 245,612,470 |
| Cyfanswm Arbedion 2018/19 | -2,749,540 |
| Cyllideb Net 2018/19 | 242,862,930 |
| | |
| **I'w ariannu drwy -** | |
| Incwm Grant | 175,127,330 |
| Treth Cyngor | 67,735,600 |
| Cyllideb Net 2018/19 | 242,862,930 |

## 8 BALANSAU

8.1 Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o £5.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.5% o wariant refeniw gros y Cyngor.

8.2 'Rydym wedi nodi ar fwy nag un achlysur oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.

8.3 Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, ac mae datganiad Llywodraeth Cymru am y setliad grant hynod heriol -1% ar gyfer llywodraeth leol yn 2019/20 yn golygu fod y risg yn parhau (os nad yw'n dwysau). Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol (gweler Rhan B am Strategaeth Ariannol tymor canol).

8.4 Wedi ymrwymo £1.51m o gronfa penodol, er mwyn ariannu'r bidiau un-tro, **argymhellir peidio defnyddio balansau cyffredinol yn 2018/19**.

8.5 **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 6 Mehefin 2017 a'r Pwyllgor Archwilio hefyd ar 6 Mehefin 2017, pryd cymeradwywyd trosglwyddo dros £1m o gronfeydd a darpariaethau tuag at flaenoriaethau / anghenion corfforaethol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad trylwyr eto erbyn Mehefin 2018**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.

8.6 Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (cyhoeddwyd 27 Ionawr 2014), mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan (ym mharagraff 1.8):

> "Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."

8.7 Rwy'n argyhoeddedig fod y defnydd un-tro £1.51m o gronfa penodol i ariannu bidiau un-tro yn 2018/19 yn weithred cwbl briodol, a ni argymhellir unrhyw ddefnydd o falansau'r Cyngor i fantoli cyllideb 2018/19.

## 9 CYFALAF

9.1 Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.

9.2 Yn wyneb y cyfyngiadau ariannol refeniw sydd yn ein hwynebu a'r ffaith fod ein Strategaeth Asedau cyfredol wedi cynnwys elfen sylweddol o fenthyca darbodus (sy'n golygu pwysau ar y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca), mae adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau eisoes ar droed.

9.3 Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer cynlluniau unigol 2018/19:

| **RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2018/19** | |
|---|---|
| | **£'000** |
| Cynnal a Chadw adeiladau<br>(ymdrin ag ôl groniad ac osgoi ôl groniad pellach) | 2,477 |
| Gwaith Tân ac Asbestos | 308 |
| Trefniadaeth Ysgolion | 248 |
| Adnewyddu Ffyrdd* | 1,988 |
| Goleuadau Stryd | 50 |
| Ffensys diogelwch ar y ffyrdd | 134 |
| Ymdrin â dŵr ar y ffyrdd | 100 |
| Meysydd Chwarae | 35 |
| Adnewyddu Cerbydau | 93 |
| Rhagbaratoi Cynlluniau Trafnidiaeth | 100 |
| Lonydd Glas | 20 |
| Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth | 275 |
| Grantiau Tai | 2,000 |
| I'w ddyrannu | 561 |
| **Cyfanswm** | **8,389** |

** ariannu ychwanegol a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru*

9.4 Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

| **Ariannu rhaglen gyfalaf 2018/19** | |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Gofynion cyfalaf** | **8,389** |
| | |
| **I'w ariannu drwy:** | |
| Darpariaeth cyfalaf yn y setliad | 5,898 |
| Ariannu arall* | 1,988 |
| Benthyca darbodus | 503 |
| **Cyfanswm ariannu** | **8,389** |

** ariannu ychwanegol a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru*

9.5 Bwriedir sefydlu strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen, yn unol â'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet 16 Ionawr 2018 (gweler y linc isod). Bydd y strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29.

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s15599/Eitem%208%20-%20Adroddiad%20-%20Llunio%20Strategaeth%20Asedau%20Newydd%202019-20%20i%202028-29.pdf?LLL=1

9.6 Cymeradwywyd y drefn er mwyn sefydlu'r strategaeth nesaf sydd yn nodi bydd yna weithdai yn cael eu cynnal i holl aelodau'r Cyngor fynegi barn ar y cynlluniau erbyn diwedd Mai 2018, gyda'r canlyniadau'r gweithdai yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am farn erbyn diwedd Gorffennaf 2018.

9.7 Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf (ynghyd a'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2018/19 yn unig gan fod y Cyngor ar drothwy sefydlu'r strategaeth asedau 10 mlynedd newydd.

## 10 ASESIAD EFFAITH O SAFBWYNT CYDRADDOLDEB

10.1 Mae'r gyllideb a amlinellir uchod yn ceisio parhau i ddarparu'r deilliannau priodol i holl drigolion y sir, ond gan fu cynnydd annigonol yn ein incwm i gwrdd â chwyddiant, ayb, mae'n rhaid gweithredu'r cynlluniau arbedion a thoriadau roedd wedi'u cymeradwyo llynedd, a gosod targed ar gyfer rhai cynlluniau ychwanegol.

10.2 Gydag arbedion, mae posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchodedig, ond bu asesiadau effaith priodol ynghylch y penderfyniadau ariannol ar arbedion a thoriadau pryd penderfynwyd arnynt.

10.3 Ein nod oedd sicrhau fod ein penderfyniadau ariannol yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf Cydraddoldeb, sef:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Wrth asesu, roeddem wedi ceisio canfod sut i wneud y gorau o bob cyfle i wella cydraddoldeb yn ogystal â cheisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith negyddol hyd orau ein gallu.

10.4 Wrth gynllunio ein cyllidebau, rhoddir ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol, ac yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol. Casglwyd data a thystiolaeth eisoes ar gyfer ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, a byddwn yn parhau i adeiladu ar yr wybodaeth yma drwy ddadansoddi data newydd, monitro gwasanaethau ac ymgysylltu.

10.5 Mae gennym gyfundrefnau clir ar gyfer darganfod arbedion, sydd yn cynnwys asesiad llawn o effaith yr arbedion o safbwynt cydraddoldeb. Byddwn yn dadansoddi pob cynnig unigol, gan nodi os oes angen i'r adran gynnal asesiad effaith wrth ddatblygu'r prosiect. Dyma fydd y drefn gyda'r arbedion effeithlonrwydd pellach erbyn 2018/19.

10.6 Mae'r gyllideb a argymhellir yn gwneud mwy na chwrdd â chostau chwyddiant. Mae o hefyd yn ceisio sicrhau fod pwysau cyllidebol anorfod sy'n disgyn ar wasanaethau (oherwydd galwadau uwch a roddir arnynt, yn sgil nifer uwch o gleientau a.y.b.) hefyd yn cael eu cyfarch trwy wneud penderfyniadau cyllidebol cydwybodol a rhesymol (gweler y gofynion gwario ychwanegol yn Rhan 3).

10.7 Mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 1 ac fe welir fod rhan sylweddol (£987,520) o'r cyfanswm (£3,162,990) yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol, a bod £319,000 ohono'n mynd at anghenion arbennig disgyblion ysgolion.

## 11 ASESIAD LLESIANT

11.1 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn weithredol fis Ebrill 2016 ac mae cyllideb y Cyngor wedi ei adolygu gan edrych ar faterion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sydd yn debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol.

11.2 Prif gasgliadau ynglyn a'r 7 nod llesiant:

- Llewyrchus – Niwtral
- Cydnerth - Positif (agwedd hir-dymor at ariannu gwasanaethau)
- Iachach – Niwtral
- Mwy Cyfartal – Positif (ariannu gwasanaethau 'lles', a trethu blaengar)
- Cymunedau Cydlynus – Niwtral
- Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
- Byd-eang Gyfrifol – Niwtral

11.3 Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

- Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
- Cymryd agwedd integredig - Mae'r cynigion cyllideb yn annog ffyrdd o weithio gyda phartneriaid, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
- Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion yn cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn.
- Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion.

11.4 Ynglŷn â chynlluniau arbedion effeithlonrwydd a thoriadau penodol, fel rhan o'r strategaeth arbedion, bydd asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y drefn o graffu a blaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.

11.5 Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

## 12 CADERNID YR AMCANGYFRIFON

12.1 Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig.

12.2 Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.

12.3 Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:

12.4 **Risg Chwyddiant -** Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2018/19, caniatawyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto yn ystod 2018/19 ac ansicrwydd mawr ynghylch y lefel tebygol. Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir ei gyllido drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn fel bo'r angen.

12.5 **Risg Cyfraddau Llog -** Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd log yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar enillion uchel am fuddsoddi. Mae cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed ac nid ydynt yn debygol o godi cyn o leiaf 2019/20. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac mae'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.

12.6 **Risgiau Grantiau Penodol -** Mae'r risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, Ewrop, neu gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gall rhai o'r rhain gostwng neu cael eu torri ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael ar grantiau, ond mae'r cyrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.

12.7 **Risgiau Incwm -** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.

12.8 **Risg ag Arbedion -** Un risg sylweddol yn yr amgylchiadau presennol yw bod y Cyngor yn or-optimistaidd o ran gwireddu cynlluniau arbedion. Petai'r prosiectau hyn yn rhedeg i drafferthion ac yn methu cyflawni'r arbedion a gymerwyd allan o'r gyllideb, gallai hynny arwain at orwario sylweddol. Byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd.

12.9 **Costau Diswyddo Staff -** Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Lle'n briodol, caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.

12.10 **Premiwm y Dreth Cyngor -** Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Er bod gan y Cyngor gofnodion da, mae risg na fydd perchenogion eiddo'n gorfod talu'r premiwm am nifer o resymau, gan gynnwys gwerthu neu osod yr eiddo. Gan mai hon fydd blwyddyn gyntaf y premiwm, mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd. Byddwn yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr a pheidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.

12.11 **Barn y Swyddog Cyllid Statudol -** Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

## 13 CASGLIADAU

13.1 Mae'r adroddiad yma yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2018/19 ac yn cadarnhau dylid parhau gyda'r strategaeth arbedion ar gyfer dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor erbyn 2019/20 a thu hwnt.

## CYLLIDEB 2018/19

13.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £242,862,930, wedi ychwanegu £11.5m (sy'n cynnwys darparu £1.55m ar gyfer pwysau ar wasanaethau).

13.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £175.13m a dibynnu ar £2.75m o arbedion, bydd angen i incwm Treth Cyngor gynyddu 4.8% i £67.74m er mwyn cau bwlch ariannol 2018/19.

13.4 Bydd modd mantoli'r gyllideb drwy gyfuniad o gamau, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Anghenion Gwario 2018/19 | £245,612,470 |
| Llai incwm Grant y Llywodraeth | - £175,127,330 |
| Llai arbedion fydd wedi'u cyflawni | - £2,749,540 |
| Incwm Treth Cyngor | £67,735,600 |

**13.5 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £242,862,930. Rhoddir dadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 2.**

**13.6 Argymhellir hefyd y dylid sefydlu rhaglen gyfalaf o £8.389m ar gyfer 2018/19.**

**STRATEGAETH TYMOR HIRACH**

13.7 O ran y sefyllfa dros y blynyddoedd dilynol, rhaid parhau gyda'r strategaeth arbedion er mwyn adnabod opsiynau sylweddol er mwyn cau'r bwlch ariannu gallasai fod rhwng £8.5m a £13.8m erbyn 2019/20 (swm tebygol £12m), ac wedyn rhwng £2.7m a £6.4m pellach erbyn 2020/21 (cyfanswm tebygol dros dwy flynedd o £15.9m).

**13.8 Felly, argymhellir sicrhau bod ein trefniadau yn ddigon hyblyg er mwyn gallu sicrhau hyd at £20m o arbedion dros y dair blynedd 2018/19 – 2020/21.**

**ATODIAD 1**

## BIDIAU REFENIW 2018/19

| Manylion y Bid |
|---|
| **ADRAN ADDYSG (G.T.)** |
| **Campws Dysgu 3 i 19 y Bala - £190,700 Un Tro**<br>Ym mis Medi 2015, penderfynwyd "… penodi a chyllido pennaeth y Campws Dysgu 3-19 o arbedion y cynllun, am o leiaf blwyddyn cyn agor yr ysgol ym Medi 2018”. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2017 penderfynwyd tynnu’r cynnig yn ei ôl gan, ar y pryd, byddai’n anodd ac amhriodol i weithredu’r cynnig yn sgil y sefyllfa oedd yn bodoli, ond rhoddwyd caniatâd i swyddogion gychwyn proses i adnabod cynigion amgen ar gyfer yr ysgol, a fyddai’n cyfarch a chyd-fynd â gofynion yr achos busnes.<br><br>Rhagwelir y bydd yr ysgol newydd yn agor ym mis Medi 2019, felly bydd angen ffynhonnell ariannol ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2018 a Medi 2019. Rhagwelir penodi pennaeth flwyddyn cyn i’r ysgol agor, gyda dirprwy bennaeth, a swyddog busnes a chyllid yn cael eu penodi yn ystod y tymor cyn agor.<br><br>Sut - mae angen penodi’r staff perthnasol o flaen llaw er gallu penodi sefydlu gweddill y strwythur staffio, i gymryd cyfrifoldeb am y cynllun cyfathrebu cynhwysfawr, ac i gynnig cymorth ac arweiniad i staff yr ysgolion presennol. Yn ogystal, bydd y Pennaeth yn rhan bwysig o’r broses o gytuno ar sut bydd yr elfennau cymunedol yn cael eu datblygu yn yr ysgol newydd.<br><br>Risgiau - na fydd yr ysgol newydd yn weithredol erbyn Medi 2019 oni bai derbynnir y cyllid angenrheidiol.<br><br>Sylwadau – Awgrymir cefnogi'r cais er mwyn hwyluso llwyddiant y cynllun. Mae’n dilyn cynsail sefydlu Ysgol Bro Idris. |

**<u>Cludiant Tacsis Ysgolion - £200,000 Un Tro</u>**

***Tacsis a Bysiau Mini***
Mae'r adroddiad "Adolygiad Cyllideb Refeniw 2017-18 - Adnabod Risgiau Cynnar" a gyflwynwyd i'r Cabinet yn nodi:

*"Cludiant - rhagolygon cynnar o orwariant o £200k, gyda £160k ar gludiant tacsis ysgolion yn dilyn cynnydd yn y ceisiadau ers sefydlu'r gyllideb am 2017/18, o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau."*

Mae'r adroddiad Adolygu Cyllideb Refeniw Ail Chwarter yn adrodd gorwariant o £228k. Gall yr Adran ystyried ariannu'r gorwariant o gyllideb yr ysgolion, ond credir byddai hynny yn annoeth o ystyried y pwysau anferthol sydd yn wynebu cyllidebau'r ysgolion

Gwelwyd cynnydd net yng nghostau cludiant disgyblion/myfyrwyr ers sefydlu Cyllideb 2017-18. Rhennir y cynnydd i ddau rhan:

**Rhan 1** – cynnydd o £160k yn y costau ers sefydlu cyllideb 2017-18 ond cyn cychwyn y flwyddyn academaidd newydd ym Medi 2017
**Rhan 2** – cynnydd o £126k yn y costau ers sefydlu cyllideb 2017-18 ac yn gynnydd net ers gychwyn y flwyddyn academaidd newydd ym Medi 2017
Mae'r Uned Cludiant Integredig yn cynnal ymchwiliad i'r cynnydd net hwn yn y cytundebau sydd wedi gorffen/cychwyn.

<u>Sut</u> - ni fydd gorwariant i gyllideb refeniw'r Adran gan fod y cytundebau wedi eu hariannu'n llawn.

<u>Risgiau</u> - peidio cwrdd â gofynion "Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008".

<u>Sylwadau</u> – Awgrymir pontio'r angen gyda swm un tro o £200,000 gyda'r Adran Addysg yn ariannu'r gweddill, a chael adolygiad i ddatrys y sefyllfa yn 2018/19.

| |
|---|
| **<u>Cymorth Ychwanegol i Ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad - £319,000 Parhaol</u>**<br><br>Nid yw cyllideb 'Integreiddio' wedi derbyn cynnydd ariannol yn nhermau real ers y flwyddyn gyllidol 2010/11 ond mae gofynion ar gyfer cymorth ychwanegol yn parhau i gynyddu am sawl rheswm.<br><br>Gellir rhannu'r gyllideb Integreiddio i ddwy rhan:<br>1. Datganiadau/Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ADY.<br>2. Arall ADY.<br><br>Yn y gorffennol, mae'r gwasanaeth wedi ymdopi gyda chynnydd yn y gofynion trwy weithredu yn fwy effeithlon a hefyd cyllido o'r pennawd 'Arall' ond nawr, rhagwelir gorwariant o £319k.<br><br><u>Sut</u> - mae'r gwariant ychwanegol eisoes yn weithredol, yr hyn sydd ddim yn ei le yw'r ffynhonell ariannu.<br><br><u>Risgiau</u> - petai'r bid yn cael ei wrthod byddwn yn gweithredu 'toriad' annisgwyl.<br><br><u>Sylwadau</u> – Mae'r cais yn rhesymol ac awgrymir ei gefnogi. |
| **<u>Grant Dillad - £17,650 Parhaol</u>**<br><br>Mae grant wedi ei ddiddymu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer y setliad 2018/19 ac felly rhagdybir fod disgwyl i'r Awdurdodau barhau gyda'r cynllun oddi fewn y setliad.<br><br>Mae'r cynllun grant gwisg ysgol yn helpu teuluoedd ar incwm isel ac mae'r bid wedi ei gyfrifo ar y sail ganlynol:<br>Amcan nifer plant cymwys yn 2018-19 144 x £105 (sef y grant y llywodraeth) = £15,120<br>Ffi gweinyddu £2,533 |

| **ADRAN ECONOMI A CHYMUNED (I.T.)** |
| --- |
| **<u>Adnoddau Datblygu Economaidd Strategol - Cronfa Cydariannu - £500,000 Un Tro</u>**<br><br>Cais i sicrhau fod gan y Cyngor gyllideb ar gyfer arian cyfatebol er mwyn denu arian allanol i weithredu cynlluniau i ddatblygu economi'r sir.<br><br>Buddsoddwyd £4.9M i'r perwyl gan gefnogi 35 o gynlluniau gyda chyfanswm gwerth o £72.3M. Felly, am bob £1 mae'r Cyngor wedi ei fuddsoddi mae bron i £14 wedi ei sicrhau.<br><br>Yn 2013, sefydlwyd cronfa gwerth £900K ar gyfer rhagbaratoi a gwireddu cynlluniau gan dargedu cronfeydd allanol. Mae rhan sylweddol o'r cyllid wedi ei ymrwymo, gyda mwy o gynlluniau angen eu cydariannu na'r cyllid sydd ar gael.<br><br>Nid oes gan yr Adran y cyllid ar gyfer datblygu a chydariannu cynlluniau datblygu economaidd strategol.<br><br>Os nad yw'r Cyngor yn ymrwymo'r arian, ni ellir sicrhau arian o ffynonellau allanol i weithredu cynlluniau strategol, ac ni fyddwn yn rhan o gynlluniau isranbarthol / rhanbarthol a all arwain at fethiant i gwrdd âg anghenion lleol.<br><br><u>Sylwadau</u> – Awgrymir cefnogi'r cais gan fod y gronfa yn denu arian allanol i'r Cyngor yn ogystal. |

| ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT (W.G.R) |
|---|
| **Anabledd Dysgu - Oed Trosglwyddo - £186,190 Parhaol**<br>Ariannu pecynnau gofal 3 unigolyn sydd yn trosglwyddo o'r Gwasanaeth Plant i'r Gwasanaeth Oedolion (Anabledd Dysgu). Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth Dydd/Cefnogaeth/Pecyn Taliadau Uniongyrchol i gwrdd ag anghenion yr unigolion a'u teuluoedd.<br><br>Sut - galluogi teuluoedd/gofalwyr i barhau i ofalu am unigolion sydd ag anghenion sylweddol, gan roi cyfle i'r unigolion ddatblygu sgiliau pellach gyda'r bwriad o hybu annibyniaeth.<br><br>Risgiau - peidio cwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol a'r ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, a'r posibilrwydd bydd y sefyllfa gartref yn torri lawr a allai arwaina t orfod lleoli'r unigolion mewn lleoliadau drytach.<br>Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais, gyda'r timau perthnasol yn gweithio'n agos efo'r Uned Gyllid er gwella'r ddealltwriaeth o gostau trosglwyddo. |
| **Newid Trothwy Cyfalaf sydd yn Sail i Hunan Ariannu Gwasanaeth Gofal o £30,000 i £40,000 - £250,000 Parhaol**<br><br>Cais i ymateb i ddatganiad Llywodraeth Cymru eu bod yn cynyddu'r trothwy cyfalaf a ddefnyddir i benderfynu os yw person yn hunan ariannu eu lleoliad preswyl/nyrsio o £30K i £40k, sydd yn dod i rym yn Ebrill 2018. .<br><br>Sut - roedd y golled ariannol i'r Cygor yn y flwyddyn arainnol 2017/18 pan godwyd y terfyn cyfalaf o £24,000 i £30,000 dros £200,000 (parhau i fesur effaith terfynol).<br><br>Risgiau - heb y cyllid ychwanegol bydd y gyllideb bresennol yn annigonol a'r Adran yn debygol o orwario.<br><br>Sylwadau – Argymhellir cefnogi'r cais. |

| |
|---|
| **<u>Cofrestru Gweithwyr Gofal - £24,560 Parhaol a £23,060 Un Tro</u>**<br>Mae'n rhaid cadw cofrestr o weithwyr y maes gofal. Mae Uwch-weithwyr eisioes yn cofrestru gyda'r Cyngor Gofal, gyda disgwyl y bydd y ffi blynyddol yn cynyddu o £30 i £50.<br>Bellach, mae gofyn deddfwriaethol i gofrestru staff gofal rheng flaen ac ystyrir mai £20 fydd y ffi am 2018/19.<br><br>Rhagwelir bydd angen £22,400 parhaol ar gyfer costau cofrestru Oedolion a £2,160 parhaol ar gyfer costau cofrestru Plant.<br><br>Bydd angen buddsoddi amser ychwanegol yn hyfforddi ac amser gweinyddol a gwneir cais am £23,060 un tro er mwyn ariannu swyddog ar gyfer paratoi a hyfforddi'r gweithlu, gyda'r adran yn ariannu y costau gweinyddu o £23,180 o'u cyllideb bresennol.<br><u>Sut</u> – er ymateb yn llawn i ofynion statudol a chefnogi'r gweithlu.<br><br><u>Risgiau</u> - methu cyflogi staff ar gyfer cynnal ein gwasanaethau statudol o ran gofalu am drigolion mwyaf bregus. |
| **<u>Cynyddu Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai - £46,110 Parhaol</u>**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau cyfalaf i helpu Cynghorau i ddarparu 20,000 o dai ychwanegol. Bydd dyraniad y Cyngor yn gallu codi o £4.3m rhwng 2014-17 i hyd at £15.7m rhwng 2017-20. Mae hyn yn creu cyfle i ddarparu tai fforddiadwy i'r ardal, ond ceir her sylweddol gan bod angen datblygu cynlluniau a pharatoi ceisiadau er mwyn cyfiawnhau ac arolygu'r cynlluniau.<br><br>Mae capasiti strategol yr Adran Dai wedi lleihau i 1 swyddog ac yn sgil gwaith ychwanegol sydd eisoes yn bodoli, mae perygl na fyddwn yn gallu manteisio ar y cyfle heb gynnydd yn yr adnoddau i ymateb. Yn ychwanegol, mae nifer o gynlluniau grant eraill wedi eu cyhoeddi.<br><br>Mae cyfleon hefyd i fanteisio ar raglenni Arbed Ynni mewn cymunedau difreintiedig, yn ddarostyngedig i ddatblygu cynlluniau a chyflwyno ceisiadau i wireddu y cynlluniau.<br><br><u>Sut</u> - penodi swydd llawn amser er mwyn sicrhau ein bod yn cyflwyno rhaglenni gwaith, a manteisio ac uchafu'r arian sydd wedi ei ddynodi i gynyddu'r nifer o dai ac i wella ansawdd a chyflwr tai er cyfarfod a'r angen lleol.<br><br><u>Risgiau</u> - Colli cyfleon euraidd i gynyddu cyflenwad ychwanegol o dai sydd wirioneddol ei hangen i drawsnewid y gwasanaeth.<br><br><u>Sylwadau</u> – Argymhellir cefnogi'r cais. |

| |
|---|
| **<u>Atal Digartrefedd - £202,720 Parhaol</u>**<br><br>Mae'r Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau statudol ar y Cyngor, i gynorthwyo i atal digartrefedd neu ddod o hyd i rywle arall i fyw ar gyfer pawb sy'n cyflwyno eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r dyletswydd i ddarparu llety dros dro i bobl sydd wedi cyrraedd y pwynt o fod yn ddigartref yn parhau.<br><br>Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o ymgeiswyr, gyda disgwyliad bydd newidiadau i'r Buddion Lles yn cynyddu'r nifer o ymgeiswyr hefyd. Gwelwyd effiath hyn eisoes.<br><br>Mae'r grant trosiannol gan Lywodraeth Cymru ers 2015-16 yn dod i ben 31 Mawrth 2018, gyda'r disgwyliad bydd yr arian yn trosglwyddo i'r setliad yn 2018-19. Nodwyd swm o £213k.<br><br>Mae'r arian ychwanegol wedi galluogi'r gwasanaeth i gyflogi pedwar swyddog llawn amser dros dro, a chael cyllideb ychwanegol i, er enghraifft, dalu blaendal er mwyn sicrhau eiddo a gwaith gweinyddol arall.<br><br>Mae'r cais yn gofyn am gyllid i barhau hefo'r cynllun a'r swyddi atal digartrefedd.<br><br><u>Sut</u> - parhau i gynnig ystod o wasanaethau yn y mae digartrefedd.<br><u>Risgiau</u> – methu a chyflawni gwasanaeth statudol a gorfod lletya mwy mewn llety drytach dros dro.<br><u>Sylwadau</u> - Argymhellir cefnogi'r cais. |
| **<u>Sefydlu Tim Diogelu a Sicrwydd Ansawdd - £84,880 (Ariannu Ail flwyddyn)</u>**<br><br>Cyflwynwyd cais yn 2017/18 i ymateb i bryderon Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) am drefniadau diogelu oedolion bregus y Cyngor. Drwy sefydlu tîm i ymgymeryd â'r dyletswyddau newydd lle nad oes capasiti digonol yn bodoli ar hyn o bryd . Yma cyflwynir yr ail flwyddyn o'r ariannu i ddelio gyda gwaith DOLs i ariannu dwy swydd gweithwyr cymdeithasol.<br><br><u>Sylwadau</u> – Eitem yma er cysondeb yn unig – eioes wedi ei gymeradwyo yn 2017/18. |

| ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD (D.M.) |
|---|
| **<u>Lleoliadau Plant - £170,000 Un Tro</u>**<br>Er bod cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal, mae mwyafrif y cynnydd wedi eu lleoli gyda rhieni neu mewn trefniadau teuluol, lle nad oes ymrwymiadau ariannol cyson. Ar yr un pryd cafwyd achosion eithriadol gyda risgiau uchel, neu a oedd yn annisgwyliedig, sydd wedi golygu lleoli tu allan i'r sir oherwydd y risgiau hynny.<br><br>1) Lleoliad i 5 plentyn o'r un teulu yn dilyn achos llys preifat.<br>2) Lleoliad i 4 person ifanc mewn lleoliadau preswyl o fewn cyfnod byr iawn i'w gilydd.<br><u>Sut</u> - mae'r lleoliadau cyfredol yn ymrwymo'r gyllideb presennol, ac felly'n cyfyngu ar y gallu i drefnu lleoliadau newydd heb orwario pellach, yn ogystal a chyflawni gweddill y rhaglen arbedion. Mae'r bid wedi ei seilio ar gyfartaledd patrwm gwariant ar rai achosion penodol dros y 11 mlynedd diwethaf.<br><br><u>Risg</u> - gall peidio a lleoli arwain at sefyllfa lle na fyddwn yn gweithredu'n gyfreithiol lle mae asesiad risg yn dangos nad ydyw'n ddiogel iddynt barhau i fod adref. Hefyd bydd peidio ymateb yn arwain at gorwariant.<br><u>Sylwadau</u> – Awgrymir cefnogi'r cais |
| **ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL (G.W.G.)** |
| **<u>Gwastraff - Lleihad Un Grant Amgylcheddol (£430,000) – Grant Awdurdod Lleol ESD – amcan o 7% - £430,000 Parhaol</u>**<br><br><u>Sut</u> - mae'r bid yn diwallu'r angen drwy sicrhau ein bod fel gwasanaeth yn gallu cadw fyny â'r gofyn a ymdrin â deunyddiau ailgylchu. Mae ein casgliadau ailgylchu yn llwyr ddibynol ar y Grant Awdurdod Lleol a gyda lleihad y grant heb y bid , byddai straen sylweddol ar y gwasanaeth.<br><br><u>Risgiau</u> - methu cynnal y gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd heddiw a methu a chyrraedd a chadw at dargedau statudol Llywodraeth Cymru o ran ailgylchu.<br><u>Sylwadau</u> – Awgrymir cefnogi'r cais. |
| **<u>Gwaredu Gwastraff – Llosgydd - £35,520 Parhaol</u>**<br><u>Sut</u> - mae'r bid yn diwallu'r angen drwy sicrhau ein bod fel gwasanaeth yn gallu cadw fyny â'r gofyn a ymdrin â deunyddiau ailgylchu a sicrhau llai o ddibyniaeth ar dirlenwi i waredu gwastraff. Mae'r cais yn cynnwys ariannu costau rheoli'r ddarpariaeth rhanbarthol fydd yn disodli tirlenwi yn llwyr.<br><br><u>Risgiau</u> - methu cynnal y gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd heddiw a methu a chyrraedd a chadw at dargedau statudol Llywodraeth Cymru o ran ailgylchu.<br><u>Sylwadau</u> - Awgrymir cefnogi'r cais. |

| **ADRAN AMGYLCHEDD (D.M.)** |
|---|
| **<u>Ymateb i Gynllun Wylfa Newydd - £25,000 Un Tro</u>**<br><br>Mae cwmni Pwer Niwcler Horizon yn paratoi cais ar gyfer Gorchymyn Caniatad Datblygu (DCO) i ddatblygu gorsaf niwclear Wylfa newydd.<br><br>Er bod datblygiad Wylfa Newydd wedi ei leoli yn Ynys Môn, bydd y datblygiad ar yr un llaw yn gyfle i'r economi lleol, ond ar y llaw arall yn cyflwyno nifer o heriau i'r Cyngor. Mae'r Grŵp Prosiect Strategol eisioes wedi adnabod heriau a phryderon posib ar y Sir.<br><br>Mae pryder hefyd y buasai datblygiadau megis Prosiect y Grid Cenedlaethol i uwchraddio'r llinell drydan rhwng Wylfa Newydd a Phentir a'r cynllun i godi trydedd bont dros y Fenai, i gyd yn digwydd ar yr un pryd.<br><br>Mae cyfle i'r Cyngor rhoi sylwadau ar y dogfennau DCO drafft. Bydd hefyd yn bwydo mewn i'r Asesiad Effaith Lleol y bydd y Cyngor yn ei baratoi fel rhan o'r broses. Mae diffyg capasiti o fewn y Cyngor i ymdopi gyda'r llwyth gwaith o ddarparu ymatebion i'r dogfennaeth hyn.<br>Mae'n hanfodol fod y Cyngor yn darparu sylwadau er mwyn dylanwadu ar y cais er budd trigolion Gwynedd, ond ar yr un pryd i warchod buddiannau'r Cyngor a'r trigolion ac i liniaru unrhyw effeithiau negyddol. Felly mae angen cefnogaeth allanol i helpu i gydlynu ymateb y Cyngor ac i baratoi Asesiad o Effaith Lleol. (Bydd y gefnogaeth ar gyfer cyflwyno'r cais DCO nid yw'n cynnwys cefnogaeth ar gyfer yr archwiliad cyhoeddus).<br><br><u>Sut</u> - dewisiwyd yr ymgynghorydd ar y sail ei fod yn gwneud gwaith ar ran Ynys Môn gyda datblygiad Wylfa Newydd, ac felly'n gyfarwydd gyda'r prosiect a'r heriau posib. Bydd yr ymgynghorydd yn cefnogi swyddogion, yn helpu i gydlynu ymateb y Cyngor ac yn helpu gyda darparu tystiolaeth sydd yn cefnogi safbwynt y Cyngor lle bo angen.<br><br><u>Risgiau</u> - na fydd y Cyngor mewn sefyllfa i ymateb yn drylwyr ac nid yn y sefyllfa orau i ymateb i'r heriau'r datblygiad sylweddol. |
| **ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL (M.R.)** |
| **<u>Cronfa Dysgu a Datblygu Corfforaethol - £405,000 Un Tro</u>**<br><br>Mae'r gronfa Dysgu a Datblygu Corfforaethol wedi ei ddefnyddio yn llawn, felly gwneir cais i ariannu hyfforddiant corfforaethol am 3 mlynedd, cost blynyddol o £135k.<br><u>Sylwadau</u> - Awgrymir cefnogi'r cais. |

| **ADRAN CYLLID (P.J.)** |
| --- |
| **<u>Arolygwr Treth Cyngor - £52,600 Parhaol</u>**<br><br>Yn sgil penderfyniad y Cyngor i godi premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor, mae angen cryfhau trefniadau ar gyfer dilysu datganiadau gan berchnogion, gan fod pryder byddai rhai perchnogion eiddo yn ceisio defnyddio amrywiol ddulliau i osgoi talu'r premiwm.<br><br>Mae rhagolygon yn awgrymu y gallai'r Premiwm godi oddeutu £2m - £3m i'r Cyngor, ond mae angen buddsoddi yn yr adnoddau casglu er mwyn gwneud yn siŵr fod incwm yn cael ei uchafu.<br><br><u>Sut</u> - bwriedir penodi dau arolygwr ychwanegol a fyddai'n canolbwyntio ar agweddau yn ymwneud â chasglu'r Premiwm, gan gynnal ymweliadau yn ogystal â chynnal adolygiadau ac ymchwiliadau pen-desg. Hefyd, gwneir cais i gyllido cynnydd yng ngraddfa cyflog swyddog trethiant fydd yn ymgymryd â'r dyletswyddau goruchwyliaeth ychwanegol.<br><br><u>Risgiau</u> - ni fyddai modd i'r Cyngor wirio'r datganiadau a wneir gan berchnogion eiddo, sy'n golygu y byddai'n rhaid atal codi premiwm er mai hynny a ddylid ei wneud.<br><br><u>Sylwadau</u> - Awgrymir cefnogi'r cais. |

**BIDIAU CYFALAF 2018/19**

| Manylion y Bid |
|---|
| **ADRAN ECONOMI A CHYMUNED (I.T.)** |
| **<u>Cronfa Datblygu Gwirfoddol - £40,000</u>**<br><br>Mae cymunedau yn wynebu heriau a chyfleon wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd sy'n effeithio arnynt. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol yn ymateb i'r heriau hyn drwy gynnal asedau a gweithagreddau lleol. Mae nifer o grwpiau gwirfoddol hefyd yn ymateb i'r cyfleon hyn drwy ddatblygu cynlluniau o'r newydd – yn benodol ar hyn o bryd trosglwyddo asedau o wasanaeth cyhoeddus i reolaeth gymunedol.<br><br>Dros y 2 flynedd ddiwethaf mae'r Cyngor, drwy'r Gronfa Datblygu Gwrifoddol Cyfalaf wedi cefnogi rhai cymunedau i ddatblygu cynlluniau sydd wedi ymateb i effeithiau'r cynlluniau arbedion a'r cynllun strategol.<br><br><u>Sut</u> - drwy ddarparu grantiau i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Yn benodol cefnogi prosiectau sy'n ymwneud â throslgywddo asedau a buddsoddi mewn asedau cymunedol lleol.<br><br><u>Risgiau</u> - ni fyddai gan y Cyngor adnodd ar gyfer cyfeirio grwpiau sy'n ymateb i'r agenda arbedion / toriadau.<br><br><u>Sylwadau</u> - arian Cyfalaf ar gyfer y Gronfa Datblygu Gwirfoddol oedd hon, ac fod gan yr adran £70k o gyllideb refeniw yn ogystal. Awgrymir y dylid lleihau'r arian a roddir i £40k am y flwyddyn nesaf ac wedyn, rhybuddio y gallasai'r sefyllfa ariannol olygu y byddai'n rhaid gostwng ymhellach (efallai i £0k) y flwyddyn ganlynol. |

**Mesurau Diogelwch Parc Gwledig Padarn, Llanberis - £50,000**

Cais er mwyn galluogi'r Cyngor i ymateb i'r risgiau amlygwyd yn Chwarel Vivian a Choed Dinorwig. Mae archwiliadau o'r adfeilion yn Chwarel Vivian wedi amlygu ansefydlogrwydd y strwythurau. Gyda'r angen i ddatblygu Cynllun Rheoli Coed ar gyfer y Parc, er mwyn asesu'r risigiau.

Sut - bydd yr adnodd ychwanegol yn caniatau ymateb i'r risgiau drwy:

Chwarel Vivian (Cost o tua £35k)
1. Asesiad o gyflwr adeiladau/strwythurau Chwarel Vivian
2. Paratoi Asesiad Risg, gan adnabod mesurau lliniaru
3. Gweithredu mesurau brys

Coed Dinorwig (Cost o tua £15k)
1. Paratoi Asesiad Coed
2. Paratoi Asesiad Risg, gan adnabod mesurau lliniaru
3. Gweithredu mesurau brys

Risgiau - methiant i ymateb i beryglon rhagweladwy ac felly risg o ddamwain difrifol ar y safle. Ynghyd a posibilrwydd nad yw'r Cyngor yn gwireddu dyletswydd i ofalu am y sawl sydd yn cerdded ar y safle.

**ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL (G.W.G.)**

**Tanciau Tanwydd Fflyd y Cyngor - £150,000**

Mae angen gwaith adnewyddu buan a sicrhau mesurau atal llygredd mewn 3 lleoliad lle mae tanciau storio tanwydd y Cyngor sef Afonwen, Cibyn a Depo Ffordd Bala, Dolgellau.

Sut - pryniant tanciau, traeniad a mesurau atal llygredd sy'n cyrraedd y gofynion statudol.


Risgiau - diffyg cydymffurfiaeth â Rheoliadau Atal Llygredd (storio olew) 2016.

**ATODIAD 2 (a)**

| CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2018/19 FESUL GWASANAETH | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Sylfaenol 2017/18 | Chwyddiant | Incrementau a Phensiynau | Ardoll a Llog ar Falansau | Demograffi | Trosglwyddiad i'r Setliad | Cyllidebau Incwm | Addasiadau Cyllideb Armywiol | Pwysau ar Wasanaethau | Arbedion a Thoriadau | Cyllideb Sylfaenol 2018/19 |
| **ADRANNAU** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,021 | 49 | 5 | 0 | 0 | 0 | (10) | (5) | 0 | (14) | 2,046 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,581 | 170 | 59 | 0 | 0 | 0 | (15) | 65 | 405 | (47) | 8,218 |
| Cyllid | 6,073 | 170 | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | (24) | 53 | (40) | 6,244 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 20,539 | 967 | (7) | 0 | 0 | 1,958 | 226 | (105) | 466 | (87) | 23,957 |
| Amgylchedd | 5,096 | 199 | (7) | 0 | 0 | 0 | (65) | (34) | 25 | (140) | 5,074 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 240 | 9 | (1) | 0 | 0 | 0 | 0 | (19) | 0 | 0 | 229 |
| Addysg Canolog | 13,947 | 241 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 536 | 727 | (89) | 15,365 |
| Cyllideb Ysgolion | 69,340 | 1,496 | (8) | 0 | (225) | 0 | 0 | (645) | (299) | (433) | 69,226 |
| Economi a Chymuned | 5,305 | 167 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | (67) | 500 | (398) | 5,523 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 45,261 | 2,085 | 38 | 0 | 0 | 2,902 | (100) | (190) | 795 | (915) | 49,876 |
| Plant a Chefnogi Theuluoedd | 12,704 | 325 | 20 | 0 | 0 | 218 | 0 | (164) | 170 | (250) | 13,023 |
| **Cyfanswm Adrannau** | **188,107** | **5,878** | **130** | **0** | **(225)** | **5,078** | **36** | **(652)** | **2,842** | **(2,413)** | **198,781** |
| Materion Corfforaethol a chyfalaf | 46,242 | 641 | 341 | 66 | 458 | 0 | 0 | (1,917) | (207) | (337) | 45,287 |
| **CYFANSWM GROS** | **234,349** | **6,519** | **471** | **66** | **233** | **5,078** | **36** | **(2,569)** | **2,635** | **(2,750)** | **244,068** |
| Llai Praesept Cynghorau Cymuned | (1,995) | | | | | | | | | | (1,995) |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **232,354** | **6,519** | **471** | **66** | **233** | **5,078** | **36** | **(2,569)** | **2,635** | **(2,750)** | **242,073** |
| Ariannwyd Drwy:<br>Balansau a Reserfau Penodol | (1,055) | 0 | 0 | 0 | 457 | 0 | 0 | 250 | 1,138 | 0 | 790 |
| **CYFANSWM NET =** | **231,299** | **6,519** | **471** | **66** | **690** | **5,078** | **36** | **(2,319)** | **3,773** | **(2,750)** | **242,863** |

**ATODIAD 2 (b)**

## CYLLIDEB SYLFAENOL 2018/19 - GWARIANT NET £242,863K



**RHAN B**

## CYNLLUN TYMOR CANOLIG I DDYGYMOD Â'R BWLCH ARIANNOL 2018/19 - 2020/21

### Cyflwyniad

1. Ers nifer o flynyddoedd bellach mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cynllunio ymlaen llaw gan fod yn fyw i'r hyn sydd ar y gorwel bob tro wrth sefydlu ein cyllideb. Mae hyn wedi talu ar ei ganfed, a hyn mewn gwirionedd sy'n golygu ein bod wedi medru mantoli cyllideb 2018/19 heb benderfynu ar unrhyw doriadau ychwanegol byddai'n cael ardrawiad ar bobl Gwynedd. Nid pob Cyngor sydd mewn sefyllfa i fedru gwneud hyn.

2. Er mwyn parhau ar y trywydd yma, ar ben sefydlu cyllideb 2018/19, gwnaed ymdrech i daflunio sefyllfa ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol hefyd, fel ein bod yn gallu gosod sefyllfa 2018/19 yn ei gyd-destun ehangach a chynllunio sut yr ydym am fedru cwrdd â'r sialens o'n blaenau.

3. Y ffigwr sydd fwyaf ansicr yw'r ffigwr grant y byddwn yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru o 2019/20 ymlaen. Gan fod y grant yn ariannu 72% o gyllideb net y Cyngor, yn amlwg mae'r ffigwr yma yn allweddol i'r tafluniadau. Gwyddom o ddatganiadau Canghellor Llywodraeth y DU a datganiadau a wnaed gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn Llywodraeth Cymru, gallasai fod dyfodol heriol o flaen llywodraeth leol yng Nghymru. Rwy'n ymhelaethu am hyn yn rhan 10-14 isod.

4. Mae'r ail siart ffan (yn rhan 18 isod) ar gyfer y dair blynedd i ddod yn gosod darlun realistig a darbodus o'r hyn allasai ein taro.

5. Yn wahanol i rai awdurdodau eraill, gan gymryd y byddwn yn codi'r Dreth Cyngor o 4.8% ac yn gallu gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd ychwanegol, bydd gweithredu'r cynlluniau arbedion a thoriadau cytunedig (a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016 ac addaswyd gan y Cabinet ers hynny) yn ddigonol er mwyn i Gyngor Gwynedd fantoli'r gyllideb heb benderfyniadau ar doriadau ychwanegol erbyn 2018/19.

### Cefndir / Crynodeb

6. Ers penderfynu ar Strategaeth Ariannol 2017/18 – 2019/20 ym mis Chwefror 2017, bu gwaith manwl i ail-asesu ymrwymiadau cyllidebol tebygol ac asesu amrediad o bosibiliadau. Er mwyn adnabod yr her ariannol i'r Cyngor newydd, ymhellach i ymchwil trylwyr, nodwyd amrediad o ragdybiaethau am lefel 'setliad' grant y Llywodraeth a gofynion gwario gwasanaethau'r Cyngor, er mwyn darparu senarios ariannol tebygol ar gyfer 2018/19 - 2020/21.

7. Cyflwynwyd y senarios ariannol yma i'r Cyngor ar ffurf y siart ffan (twmffat tebygolrwydd) mewn sawl cyfarfod ym Mai - Gorffennaf 2017, yn cynnwys cyflwyniad yn y diwrnod croesawu aelodau etholedig ar 9 Mai, hyfforddiant i aelodau ar gyllideb y Cyngor ar 7 Mehefin a 5 Gorffennaf, ac yng nghyfarfod ffurfiol y Cabinet ar 18 Gorffennaf. Roedd y siart ffan yn cyflwyno senarios ariannol posibl i'r Cyngor er mwyn adnabod yr angen tebygol am arbedion (neu'r 'bwlch ariannu') hyd at 2020/21.

8. Roedd ein rhagolygon yn darogan yn gyson fod tebygolrwydd y gellid dygymod â sefyllfa gyllidol 2018/19 drwy gynhaeafu arbedion sydd ar y gweill, ond erbyn 2019/20 – 2020/21 byddai angen arbedion pellach. Cadarnhaf fod hynny yn wir am 2018/19, ac yn parhau i fod yn senario tebygol erbyn 2019/20 a 2020/21, pryd gall y Cyngor wynebu bwlch ariannu oddeutu £16m. Felly, dylid parhau gyda'r strategaeth arbedion gytunwyd eisoes erbyn 2019/20.

9. Bellach, mae ffigyrau terfynol mewn llaw ar gyfer 2018/19, ac ymddengys gellid mantoli'r gyllideb drwy gynhaeafu'r arbedion sydd ar y gweill ynghyd â chynnydd o 4.8% yn lefel y Dreth Cyngor - fydd oddeutu lefel cynnydd cyfartalog awdurdodau lleol Cymru, fel crybwyllwyd yn tybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolig blaenorol am 2017/18 - 2020/21.

## Tybiaethau Grant Llywodraeth am 2019/20 a tu hwnt

10. Gan mai 'setliad' grant canolog sy'n ariannu 72% o gyllideb net y Cyngor, mae'r elfen yma yn allweddol wrth geisio taflunio'r sefyllfa ariannol. Mae cyfuniad o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn penderfynu faint o grant fyddwn yn ei dderbyn - cyflwr yr economi, polisïau gwario a threthu, a dewisiadau blaenoriaethu Llywodraethau'r DU a Chymru.

11. Er mwyn diweddaru'r tafluniad o'r hyn allai ddigwydd, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael i ni rŵan, gan gynnwys setliad terfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 gyda ffigwr dangosol -1% ar gyfer 2019/20, a gwariant cyhoeddus y DU rhagwelir yng Nghyllideb diweddaraf y Canghellor.

12. Roedd Llywodraeth Cymru, yn natganiad y setliad amodol, wedi clymu setliad dangosol 2019/20 i fygythiad £3.5 biliwn o doriad ar wariant cyhoeddus o adolygiad effeithlonrwydd Llywodraeth y DU. Roedd llythyr Mark Drakeford ym mis Hydref yn datgan:

    *"Gostyngiad pellach o 1.5% yw'r setliad dangosol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y bydd y £3.5 biliwn o doriadau heb eu dyrannu y mae Canghellor y Trysorlys yn bwriadu eu gorfodi yn 2019/20 yn ei chael ar gyllideb Llywodraeth Cymru."*

13. Ymddengys bellach ni fydd Llywodraeth y DU yn gweithredu'r adolygiad effeithlonrwydd / bygythiad £3.5 biliwn ar wariant cyhoeddus, ac felly ni fydd unrhyw 'consequential' negyddol i gyllideb Llywodraeth Cymru. Gan wybod ymhlygiadau hyn, hynny yw y bydd gan Lywodraeth Cymru gryn hyblygrwydd ar gyfer ei cyllideb, dylai awdurdodau lleol Cymreig ymdrechu ar y cyd i sicrhau setliad positif gan Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20, yn hytrach na thoriad grant "-1%", fyddai'n lleihau grant Cyngor Gwynedd o £1.75m.

14. Er hynny, yn y cyfamser, gyda chymaint o ffactorau economaidd a gwleidyddol yn ansicr, rhaid i'r Cyngor gynllunio'n ddarbodus ar gyfer amrediad o senarios posibl. Er mwyn modelu faint fydd o bosib yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol yng Nghymru, ar gyfer y rhagolygon yn yr adroddiad yma rydym wedi gwneud rhagdybiaethau rhesymol am sefyllfa adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU, effaith fformiwla Barnett, a dewisiadau Llywodraeth Cymru (faint o 'warchodaeth' a roddir i Iechyd a phrosiectau eraill).


## Gofynion Gwario'r Cyngor

15. Paratowyd y wybodaeth ariannol mwyaf diweddar am ofynion gwario'r Cyngor ar gyfer cyllideb 2018/19, yn seiliedig ar wir 'chwyddiant' (lefel benodol o chwyddiant ar gyflogau a chyllidebau eraill) a thueddiadau perthnasol, ynghyd â'r 'pwysau ar wasanaethau', gan gynnwys demograffeg (ystadegau nifer disgyblion a nifer pobl hŷn) a bidiau am dŵf anorfod mewn gwariant, net o addasiadau posib er mwyn isafu'r gofyniad ar y gyllideb. Rydym hefyd wedi adolygu nifer o benawdau gwariant (corfforaethol yn bennaf) er mwyn tynhau ar y gyllideb lle gellid gwneud hynny, er mwyn lleihau'r gofynion gwario.


16. Fodd bynnag, yn sgil y cynnig diweddar o 2%+ yn 2018/19, a 2%+ arall erbyn 2019/20, fel cytundeb tâl cenedlaethol i staff llywodraeth leol, rydym wedi gorfod adolygu ein rhagolygon chwyddiant tâl i lefel sylweddol uwch. Hefyd, rydym wedi cynyddu'r lefel chwyddiant arall, ac wedi adolygu'r rhagolygon o ran galw am wasanaethau. Wrth gwrs, mae sail y rhagolygon yn llai dibynadwy wrth ddarogan ymhellach i'r dyfodol.

**Senarios Tebygol – angen am arbedion**

17. Mewn cyfarfodydd ym Mai - Gorffennaf 2017, cyflwynwyd cyfuniad o'r senarios posibl ar ffurf y siart ffan canlynol, gan ddangos canlyniadau mewn bandiau 10%.



18. Erbyn hyn, rydym wedi diweddaru'r tafluniadau o'r hyn allai ddigwydd, a dangosir y senarios posibl yn y siart ffan addasedig canlynol.



## Bwlch Ariannu Tebygol 2018/19

19. Fel rhan o'r gyfundrefn arbedion hanesyddol, mae arbedion gwerth £2.75m eisoes wedi eu cynllunio i'w gwireddu yn ystod 2018/19 (ynghyd â manion pellach yn 2019/20 a 2020/21), sydd yn gyfuniad o arbedion a thoriadau sydd eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor / Cabinet (£1.85m erbyn 2018/19), yn ogystal ag arbedion cyraeddadwy sydd ar y gweill ond eto i'w cymeradwyo (£896k ar gyfer 2018/19). Ar ôl adolygu gwariant a gwireddu £2.75m o arbedion erbyn 2018/19, bydd codi Treth Cyngor o 4.8% yn mantoli'r gyllideb.

20. Fel nodwyd yn yr adroddiad ar gyllideb 2018/19, bydd gweithredu'r cynlluniau arbedion sydd eisoes yn gytunedig yn ddigonol er mwyn i Gyngor Gwynedd fantoli'r gyllideb heb wneud unrhyw benderfyniadau newydd ar doriadau ychwanegol erbyn 2018/19. Fodd bynnag, mae angen paratoi ar gyfer her sylweddol yn y ddwy flynedd ddilynol (2019/20 a 2020/21).

## Strategaeth Arbedion 2019/20 a 2020/21

21. Yn unol â threfniadau cynllunio ariannol arferol y Cyngor, gan fod cynnyrch ein cyfundrefn arbedion blaenorol yn dod i ben yn 2018/19, mae'r Cyngor wedi cychwyn cynllunio ar gyfer arbedion ychwanegol y byddwn eu hangen o 2019/20 ymlaen. At ddibenion cynllunio ariannol tymor canol, rydym wedi llunio amrediad o bosibiliadau am y tair blynedd i ddod. Mae hyn wedi cynhyrchu dros 46,600 o senarios gwahanol sydd wedi'u symleiddio yn y siart ffan uchod (rhan 18).

22. Tra bydd modd unioni sefyllfa 2018/19, mae her sylweddol yn parhau o flaen y Cyngor dros y 2 flynedd ddilynol, a gwelir o'r siart ffan y bydd angen strategaeth arbedion i ganfod cyfanswm posibl o dyweder £16m erbyn 2019/20 a 2020/21. Rhaid parhau gyda'r drefn arfaethedig i adnabod arbedion a thoriadau, tra'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i ddarparu setliad grant di-dor am 2019/20 a thu hwnt.

23. Mae'n bosib i'r canlyniad fod tu allan i'n 'senarios gorau / gwaethaf' ni ar y siart, ond os bydd y senario 'canolog' yn digwydd, byddai angen £12m o arbedion ychwanegol erbyn 2019/20 a £4m pellach erbyn 2020/21 (cyfanswm o £16m). Wrth ddiystyru 10% o'r canlyniadau mwyaf ymylol, gall cyfanswm y bwlch dair blynedd amrywio rhwng £11.2m a £20.2m. Felly, mae angen i'n trefniadau ni fod yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £20m o arbedion.

24. Adroddwyd i gyfarfod 5 Hydref 2017 o'r Cyngor llawn ar y drefn o ganfod arbedion i'r dyfodol, pryd nododd yr Aelod Cabinet Cyllid fod y Cyngor yn parhau mewn cyfnod heriol. Atgoffodd y Cyngor fod cyflawni arbedion Her Gwynedd bron a'u cwblhau, ac roedd wedi bod yn drefn lwyddiannus er mwyn canfod yr arbedion angenrheidiol, ond rŵan fod angen trefn arbedion newydd i'r dyfodol.

25. Derbyniwyd cyflwyniad i'r Cyngor llawn 5 Hydref gan y Prif Weithredwr. Nododd ef fod y Cyngor wedi bod yn canfod arbedion ers 2006, er mwyn cwrdd ag effeithiau chwyddiant a phwysau ar wasanaethau. Gydag effaith toriadau Llywodraeth y DU yn parhau, 'roedd yn gynyddol amlwg fod angen dechrau cynllunio arbedion i'w gweithredu o 2019/20 ymlaen.

26. Ymhelaethodd fod swyddogion Cyllid wedi taflunio nifer o sefyllfaoedd cyllidol (uchod), a byddai'r Cabinet yn penderfynu ar dargedau arbedion gwahaniaethol i adrannau'r Cyngor, er mwyn cwrdd â'r sefyllfaoedd mwyaf tebygol. Byddai'r penaethiaid adran wedyn yn cyflwyno arbedion posib i gwrdd a'r targedau hynny, er mwyn i'r Pwyllgorau Craffu herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd.

27. Wedi i'r Aelodau gael cyfle i leisio'u barn mewn Pwyllgorau Craffu a gweithdai priodol dros haf 2018, byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal, cyn mynd ymlaen i benderfynu a gweithredu ar y cynlluniau arbedion terfynol i'w gweithredu'n flynyddol o 2019/20 ac ymlaen.

28. Yn dilyn y cyflwyniad i'r Cyngor llawn 5 Hydref, nododd aelodau fod y darlun yn ymddangos yn un difrifol iawn a bod cyfrifoldeb torfol i wneud y gorau o'r sefyllfa a chymryd rhan. Holwyd os fyddai cyfyngiad 5% ar y codiad treth Cyngor. Atebwyd byddai codiad treth o 5% yn golygu dim ond tua £3.5m ychwanegol i goffrau'r Cyngor, swm fyddai ddim yn cwrdd â chwyddiant, ac mae'n bosib bydd awdurdod lleol rhywle yng Nghymru'n wynebu'r pwysau i groesi'r 5% eleni, gan fod y sefyllfa ariannol yn mynd yn eithriadol o fregus mewn aml i le.

29. Holwyd hefyd, gan fod rhai o wasanaethau'r Cyngor eisoes o dan bwysau enbyd, ble oedd y llinell lle na ellid torri ymhellach? Casglwyd nad oedd yn eglur eto ble mae'r llinell honno, ond bydd angen sicrhau fod pob gwastraff ac opsiwn effeithiolrwydd arall wedi ei ganfod a'i wyntyllu cyn ei chyrraedd.

30. Beth bynnag fydd 'setliadau' grant y dyfodol, nid yw hynny am newid ein gallu i ddarganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd. Felly, dylid cadw at ein strategaeth bresennol sy'n cynnwys uchafu arbedion o'r fath, a dygymod gydag unrhyw fwlch ariannu ychwanegol (ddaw yn fwy amlwg yn ystod 2018/19) trwy weithredu toriadau erbyn 2019/20 a thu hwnt.

## Cynllun Ariannol Tymor Canolog am 3 blynedd

31. Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 neu 5 mlynedd. Yn anffodus, mae hynny'n gwbl anymarferol, gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu setliad am un flwyddyn a ffigwr mynegol hynod heriol am un flwyddyn ddilynol (o ystyried yr hyblygrwydd sydd ganddynt).

32. Felly, mae'n synhwyrol i ddelio gyda chyllideb 2018/19 rŵan, a parhau gyda'r strategaeth arbedion i ymateb yn fwy manwl erbyn y ddwy flynedd ddilynol (2019/20 a 2020/21) pryd byddwn wedi adnabod y bwlch ariannu perthnasol gyda mwy o sicrwydd.

33. Yn y cyfamser, **rhaid sicrhau bod ein trefniadau ni yn ddigon hyblyg er mwyn gallu gwireddu hyd at £20m o arbedion dros y dair blynedd 2018/19 - 2020/21.** I'r perwyl hyn, **argymhellir y dylid parhau gyda'r strategaeth arbedion cyfredol lle mae'r Cabinet am benderfynu ar dargedau gwahaniaethol i adrannau'r Cyngor, y penaethiaid adran yn cyflwyno arbedion posib i gwrdd â'r targedau hynny, a'r pwyllgorau craffu yn herio'r cynlluniau ar ran pobl Gwynedd, cyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau i'w gweithredu'n flynyddol.**

34. O fewn y gyfundrefn hyn, byddwn yn parhau i weithredu egwyddorion cyson o ran ystyried cynnydd yn y Dreth Cyngor yn agos i gyfartaledd y cynnydd yn awdurdodau lleol Cymru, uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu (er mwyn osgoi toriadau pellach), a gweithredu toriadau ddim ond fel bydd rhaid, er mwyn diwallu'r balans fydd ar ôl o'r bwlch ariannu.